Senedd Cymru
**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

# Canllawiau ar Drafodion Rhithwir a Hybrid

Cyhoeddwyd gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 6.17

Hydref 2025

www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

# **Canllawiau ar Drafodion Rhithwir a Hybrid**
# Cyhoeddwyd gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 6.17

Hydref 2025

Mae'r canllaw hwn yn ymwneud â thrafodion rhithwir a hybrid.

Gellir ei ddefnyddio i gynorthwyo Aelodau ac eraill sydd ynghlwm â busnes y Senedd, a dylid ei ystyried ochr yn ochr â'r canllawiau perthnasol a ganlyn:

- Canllaw Aelodau i'r Cyfarfod Llawn
- Canllaw i'r Pwyllgor Busnes
- Canllawiau ar y modd priodol o gynnal busnes y Senedd

Mae'n cynnwys:

- Gweithdrefnau ar gyfer Cyfarfodydd Llawn Rhithwir a Hybrid

# Cynnwys

**Canllawiau ar drafodion rhithwir a hybrid** ........ 5

**Cyfarfod Llawn rhithwir a hybrid** ........ 6

**Cyfarfodydd pwyllgor rhithwir a hybrid** ........ 9

**Ymddygiad a moesau mewn cyfarfodydd rhithwir a hybrid** ........ 11

# Canllawiau ar drafodion rhithwir a hybrid

Cafodd fformatau rhithwir a hybrid[1] ar gyfer trafodion y Senedd eu datblygu yn ystod y Bumed Senedd i sicrhau parhad busnes y Senedd yn ystod pandemig COVID-19. Ym mis Mawrth 2022 bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried dyfodol cyfranogi o bell yn nhrafodion y Senedd fel rhan o'i adolygiad o Reol Sefydlog 34 (Darpariaethau Brys), a chytunwyd y dylid cadw'r gallu i Aelodau gymryd rhan o bell yn y Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd pwyllgor.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylai'r Llywydd gyhoeddi canllawiau pellach, mewn ymgynghoriad â'r Pwyllgor Busnes a Fforwm y Cadeiryddion, i gwmpasu amrywiaeth o faterion yn ymwneud â gweithdrefnau a rheolau ar bresenoldeb ac ymddygiad a ddylai fod yn berthnasol mewn cyfarfodydd a gynhelir mewn fformatau rhithwir neu hybrid, yn ogystal â mewn perthynas â phleidleisio yn nhrafodion y Cyfarfod Llawn.

Mae'r Llywydd yn cyhoeddi'r canllawiau hyn o dan Reol Sefydlog 6.17 a bwriedir iddynt ategu'r *Canllawiau ar y Modd Priodol o Gynnal Busnes y Senedd a gyhoeddwyd yn unol â Rheol Sefydlog 6.17* a'r *Canllaw i'r Cyfarfod Llawn*.

[1] Yng nghyd-destun y canllawiau hyn, mae hybrid yn golygu cyfarfod gyda chyfranogwyr yn cyfrannu'n bersonol ac o bell trwy fideo-gynadledda.

# Cyfarfod Llawn rhithwir a hybrid

Mae Cyfarfod Llawn rhithwir neu hybrid a gynhelir yn unol â Rheolau Sefydlog Senedd Cymru yn gyfystyr â thrafodion y Senedd at ddibenion *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*.

Mae gan bob Aelod hawl i gymryd rhan mewn trafodion y Cyfarfod Llawn a byddant yn cael eu trin yn deg ym mhob ffordd, p'un a ydynt yn cymryd rhan yn rhithwir neu'n bersonol. Bydd yr Aelodau'n cael eu galw i siarad yn ôl disgresiwn y Cadeirydd, a bydd cyfleoedd siarad a hyd cyfraniadau yr un fath i Aelodau sy'n cyfrannu o'r Siambr neu o bell. Bydd y Llywydd yn sicrhau bod amseroedd siarad grwpiau yn gymesur ag aelodaeth y Senedd gyfan.

## Ymyriadau

Mae gan bob Aelod hawl i geisio ymyrryd ar gyfraniad. Gall Aelodau sy'n cymryd rhan drwy Zoom nodi bwriad i ymyrryd drwy godi eu llaw yn gorfforol, ac wedi hynny bydd y Cadeirydd yn hysbysu'r Aelod sy'n siarad bod Aelod arall yn dymuno ymyrryd. Yn yr un modd ag ymyriadau a wneir yn y Siambr, nid oes unrhyw hawl i ymyrryd ac nid yw'n fater i'r Cadeirydd os yw'r Aelod sy'n siarad yn gwrthod ildio.

## Meicroffonau a chysylltiadau rhithwir

Bydd staff TGCh a Darlledu yn 'gwesteia' elfennau rhithwir y cyfarfodydd, ac yn rheoli meicroffonau yn ganolog yn yr amgylchedd rhithwir a'r Siambr.

Cyfrifoldeb yr Aelod sy'n dymuno cymryd rhan yn rhithwir yw sicrhau bod ganddo gysylltiad diogel a dibynadwy â'r cyfarfod mewn da bryd cyn unrhyw gyfraniad y mae'n dymuno ei wneud. Bydd Aelod nad yw, am unrhyw reswm, yn weladwy i'r Cadeirydd ar yr amser sy'n ofynnol i wneud ei gyfraniad yn cael ei drin yn yr un modd, ni waeth a yw'n bwriadu cyfrannu'n rhithwir neu o'r Siambr.

Bydd TGCh yn gweithio'n uniongyrchol gydag unrhyw Aelod sy'n cael anawsterau technegol i geisio datrys y mater, ond os yw'r Aelod yn rhan o grŵp gwleidyddol, dylai eu cyd-Aelodau fod yn barod i gamu i'r adwy tra bod y broblem yn cael ei datrys, lle bo hynny'n bosibl.

## Defnyddio deunydd clyweledol

Oherwydd y cymhlethdod technegol, ni chaniateir defnyddio deunydd clyweledol mewn cyfarfodydd Llawn rhithwir neu hybrid.

## Pleidleisio

Yn unol â Rheol Sefydlog 12.41, bydd yr Aelodau'n bwrw eu pleidlais yn unigol[2] gan ddefnyddio dull pleidleisio electronig. Bydd pob Aelod yn defnyddio'r un modd i bleidleisio ar-lein.

Rhaid i aelodau sy'n bwriadu pleidleisio o bell hysbysu Ysgrifenyddiaeth y Siambr ymlaen llaw naill ai'n uniongyrchol neu drwy grŵp eu plaid. Rhaid derbyn hysbysiad heb fod yn hwyrach na dechrau'r Cyfarfod Llawn ar y diwrnod y mae Aelod yn bwriadu pleidleisio o bell. Ni fydd unrhyw Aelod na dderbyniwyd hysbysiad ar ei gyfer yn gymwys i bleidleisio o bell.

Rhaid i Aelodau sy'n bwrw pleidlais fod yn bresennol yn y cyfarfod ac yn weladwy i'r Cadeirydd bob amser.[3]

Yn unol â Rheol Sefydlog A12.41A, cyn pleidlais y mae'n bwriadu cymryd rhan ynddi, cyfrifoldeb Aelod yn unig yw sicrhau bod ganddo fynediad personol neu o bell i Gyfarfod Llawn ac unrhyw system bleidleisio sydd ar waith. Dylai Aelodau sicrhau eu bod yn ymuno â chyfarfodydd o leoliad preifat, a chyda dyfais a chysylltiad, a fydd yn eu galluogi i fod yn weladwy i'r Cadeirydd ac i ddefnyddio'r system bleidleisio o bell mewn da bryd cyn yr amser a ragwelir ar gyfer unrhyw bleidleisiau.

Dylai'r Aelodau fod yn ymwybodol mai amcangyfrif yw'r amseroedd ar agendâu'r Cyfarfod Llawn ac mae posibilrwydd y bydd cyfarfodydd yn rhedeg yn gynt na'r disgwyl. Felly cynghorir yn gryf y dylai unrhyw Aelod sy'n bwriadu pleidleisio o bell sicrhau eu bod wedi cael mynediad i'r cyfarfod a'r system bleidleisio cyn unrhyw bleidleisiau. Dylent ganiatáu amser i gael cymorth TGCh os bydd unrhyw broblemau. Dylai unrhyw Aelod sy'n rhagweld y gallent gael anhawster i fwrw pleidlais roi gwybod i staff cymorth TGCh cyn gynted â phosibl.

Mae'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd yn gallu atal y trafodion cyn unrhyw bleidlais os ydynt yn barnu bod angen hynny (o dan Reol Sefydlog 12.18). Mae darpariaethau Rheol Sefydlog 12.44 hefyd[4] yn gymwys. Fodd bynnag, yn amodol ar ddisgresiwn y Cadeirydd, ni chaiff yr amser pleidleisio ei atal dros dro os na all Aelod fwrw pleidlais.

---

[2] Ac eithrio unrhyw Aelodau sy'n defnyddio pleidlais ddirprwy o dan Reol Sefydlog 12.41A.

[3] Os nad yw'n bosibl i Aelod fod yn weladwy i'r Cadeirydd am resymau'n ymwneud â methiant technegol, mae'n rhaid iddynt fod yn bresennol yn y cyfarfod Zoom a chael eu clywed yn glir.

[4] "Cyn i bleidlais gael ei chynnal, os bydd o leiaf dri Aelod yn gofyn am hynny, rhaid canu'r gloch [...] Bum munud ar ôl i'r gloch ddechrau canu, rhaid cynnal y bleidlais neu'r pleidleisiau."

## Lleoliadau

Disgwylir i Aelodau sy'n bresennol ar Ystâd y Senedd gymryd rhan a phleidleisio mewn Cyfarfodydd Llawn o'r Siambr er mwyn lleihau'r risg a'r cymhlethdod sy'n ymwneud â thrafodion, yn enwedig y cyfnod pleidleisio.

Ni all Aelodau bleidleisio o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig. Dylai unrhyw Aelod sy'n teithio dramor o dan fusnes y Senedd neu'r Llywodraeth drefnu paru ar gyfer unrhyw bleidleisiau a fydd yn digwydd yn ystod y cyfnod hwnnw.

Rhaid i Aelodau bleidleisio o leoliad preifat, o dan do a ni ddylid pleidleisio tra mewn cerbyd neu drafnidiaeth gyhoeddus, neu tra fel arall yn cael eu cludo.

Gall y Cadeirydd ofyn i Aelod gadarnhau eu lleoliad (gan gynnwys eu cyfarwyddo i ddangos eu cefndir yn glir neu gael gwared ar unrhyw effaith cefndir). Os yw'r Cadeirydd o'r farn bod rheswm dyledus i gredu nad yw Aelod yn pleidleisio yn unol â gofynion yn y Rheolau Sefydlog neu'r canllawiau hyn, gall roi cyfarwyddyd iddynt beidio â phleidleisio, gofyn i swyddogion dynnu'r Aelod o'r system bleidleisio, neu gymryd unrhyw gamau eraill y mae o'r farn sy'n briodol.

Yr Aelod yn unig sy'n gyfrifol am unrhyw risg ychwanegol sy'n deillio o ddewis Aelod o ble a sut i bleidleisio, yn unol â Rheol Sefydlog A12.41A. Atgoffir Aelodau sy'n ceisio pleidleisio drwy ddefnyddio dyfais symudol o'r gofyniad bod yn rhaid i'r Cadeirydd allu gweld yr Aelodau bob amser yn ystod y sesiynau pleidleisio.

## Cymorth TGCh

Bydd cymorth TGCh wrth law, cyn ac yn ystod unrhyw bleidleisiau, i helpu Aelodau sy'n bwriadu pleidleisio yn y Siambr neu o bell.

Dylai unrhyw Aelod yn y Siambr neu ar Zoom sy'n cael problem yn ystod yr amser pleidleisio, nodi hyn i'r Cadeirydd cyn gynted â phosibl, tra bo modd pleidleisio. Bydd y Cadeirydd yn defnyddio ei farn wrth benderfynu a yw pleidlais lafar yn briodol ar gyfer unrhyw Aelodau sy'n cael anawsterau a phryd i gau pleidlais.

# Cyfarfodydd pwyllgor rhithwir a hybrid

Mae cyfarfod pwyllgor rhithwir hybrid a gynhelir yn unol â Rheolau Sefydlog Senedd Cymru yn gyfystyr â thrafodion y Senedd at ddibenion *Deddf Llywodraeth Cymru 2006.*

### Penderfyniadau am fformat cyfarfodydd

Gall aelodau pwyllgorau ddewis y modd (rhithwir neu bersonol) y maent yn cymryd rhan yn nhrafodion y pwyllgor fesul cyfarfod. Wrth wneud hynny, dylent ystyried y busnes dan sylw, unrhyw benderfyniad neu gytundeb a wneir gan y cadeirydd neu'r pwyllgor ynghylch y fformat gorau posibl ar gyfer cyfarfod penodol ac unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan y Llywydd. Disgwylir y daw cyfarfodydd hybrid yn fformat arferol ar gyfer cyfarfodydd pwyllgorau.

Mewn amgylchiadau pan fo pwyllgor wedi penderfynu y bydd yn cwrdd yn y cnawd ar gyfer cyfarfod penodol ond nad yw aelod o'r pwyllgor hwnnw'n gallu bod yn bresennol yn y cnawd, dylid ystyried trefnu dirprwy ar gyfer y cyfarfod hwnnw.

Mae Rheol Sefydlog 17.23 yn darparu mai'r cadeirydd sy'n penderfynu ar weithdrefnau cyffredinol cyfarfod. Wrth wneud penderfyniadau ynghylch fformat cyfarfodydd, dylai cadeiryddion ymgynghori ag aelodau eraill y pwyllgor a thystion, ystyried y busnes dan sylw, a chael cyngor gan glercod.

### Penderfyniadau ynghylch y modd mae Aelodau unigol yn cymryd rhan

Er y cydnabyddir y bydd amgylchiadau weithiau pan fydd angen i Aelod newid ei gynlluniau ar fyr rybudd, er enghraifft argyfwng teuluol neu etholaeth, mae'n ddefnyddiol o ran cynllunio busnes a'r defnydd o adnoddau (ac yn enwedig cymorth TGCh a Darlledu Comisiwn y Senedd) os gall hysbysu timau clercio o'r modd y bydd yr Aelod yn cymryd rhan 48 awr cyn y cyfarfod.

Oni bai bod y cyfarfod yn gwbl rithwir, neu os yw'r Aelod yn cyfrannu er gwaethaf salwch, ni ddylai'r Aelodau gymryd rhan o'u swyddfeydd yn Nhŷ Hywel.

Os ydych yn gadael cyfarfod yn barhaol cyn iddo orffen, cliciwch ar y botwm 'leave meeting' ar waelod ochr dde'r sgrin Zoom. Os ydych yn gadael cyfarfod dros dro, cliciwch 'stopio fideo' yn y gornel chwith isaf, a chliciwch 'dechrau fideo' wrth

ddychwelyd. Mae hyn yn osgoi bod cadair wag yn weladwy yn ystod unrhyw absenoldeb, ac yn sicrhau bod y Cadeirydd yn gwybod pwy sy'n bresennol yn y cyfarfod. Fodd bynnag, dylai Aelodau fod yn ymwybodol o’r rheolau cworwm sydd ar waith a’r risg y bydd cyfarfod yn mynd yn ddi-gworwm o ganlyniad i’r ffaith nad yw’n ymddangos eu bod yn bresennol mwyach, hyd yn oed am gyfnod byr.

Dylai aelodau gael eu camerâu ar agor bob amser tra yn y cyfarfod oni bai bod y Cadeirydd neu'r swyddogion yn cyfarwyddo'n wahanol. Gall camerâu Aelodau nad ydynt yn cyfrannu ar y pryd gael eu diffodd ar gais Cadeirydd neu Glerc pe bai eu hymddygiad mewn perygl o dynnu sylw’r cyfarfod neu ddwyn anfri ar y Senedd.

Dylai’r Cadeirydd gael eglurhad clir o unrhyw wyriad o'r canllawiau hyn, cyn y cyfarfod lle bo hynny'n bosibl.

## Tystion yn cymryd rhan

Mae tystion yn cymryd rhan o bell mewn cyfarfodydd pwyllgor yn arfer sydd wedi’i hen sefydlu, a oedd yn digwydd cyn cyflwyno technoleg cyfarfod rhithwir a hybrid diweddar.  Bydd cadeiryddion pwyllgorau a thimau clercio yn parhau i weithio gyda thystion i benderfynu ar y ffyrdd mwyaf priodol i dystion fod yn bresennol ym mhob cyfarfod.

Pan fo pwyllgor yn cwrdd yn y cnawd, disgwylir y bydd Gweinidogion hefyd yn bresennol yn y cnawd.  Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd adegau pan na fydd hynny’n bosibl.  Yn yr achosion hyn bydd cadeiryddion yn ymgysylltu’n adeiladol â’r Gweinidog i sicrhau y gellir dod o hyd i ateb priodol.

# Ymddygiad a moesau mewn cyfarfodydd rhithwir a hybrid

Mae Rheol Sefydlog 13 sy'n ymwneud â'r Drefn yn y Cyfarfodydd Llawn, a Rheolau Sefydlog 17.24A – 17.30 sy'n ymwneud â chyfarfodydd pwyllgor, yr un mor berthnasol i gyfarfodydd a gynhelir yn bersonol yn llawn neu ar fformat rhithwir neu hybrid. Y prif egwyddorion yw:

- Rhaid i Aelodau bob amser ymddwyn mewn modd sy'n hyrwyddo parch at y Senedd ac yn dangos parch a chwrteisi at Aelodau eraill.
- Rhaid i Aelod gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan y Llywydd ynghylch ymddygiad a threfn y Cyfarfod Llawn, neu gan gadeirydd cyfarfod pwyllgor.

Ni ddylid gwahaniaethu rhwng ymddygiad Aelodau sy'n cymryd rhan o bell a'r rhai yn y Siambr neu ystafell bwyllgora. Dylai Cadeiryddion cyfarfodydd geisio sicrhau bod yr holl gyfranogwyr yn cynnal safonau cyfartal o ran gwisg, ymddygiad a moesau bob amser, p'un a ydynt yn bresennol yn y cnawd neu'n rhithwir."

## Aelodau sy'n cymryd rhan o bell (yr holl drafodion)

Bydd ymddygiad na fyddai'n dderbyniol mewn cyfarfod yn y cnawd, er enghraifft cynnal sgwrs â rhywun nad yw'n rhan o'r cyfarfod neu siarad ar y ffôn, yn cael ei drin fel mater o drefn o dan Reol Sefydlog 13 (ar gyfer y Cyfarfod Llawn) neu Reol Sefydlog 17 (cyfarfodydd pwyllgor).

Dylai Aelodau sicrhau eu bod yn ymuno â chyfarfodydd o leoliad tawel, preifat i ffwrdd o bethau sy'n tynnu sylw neu bobl eraill nad ydynt yn cymryd rhan yn y cyfarfod. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth gymryd rhan mewn trafodion pwyllgor a gaiff eu cynnal mewn sesiwn breifat,

Ni ddylai Aelodau ymuno â chyfarfodydd tra maent mewn cerbyd neu drafnidiaeth gyhoeddus, neu wrth deithio.

Dylai Aelodau geisio cyflwyno cefndir plaen, heb unrhyw ymyrraeth i'r cyfraniad, ac ni ddylent arddangos unrhyw ddeunyddiau hyrwyddo yn y cefndir na defnyddio unrhyw bropiau na chaniateir yn y Siambr nac mewn ystafell bwyllgora.

Dylai aelodau sicrhau bod eu henw llawn i'w weld ar y sgrin.

Dylai aelodau sy'n cymryd rhan o bell ymatal rhag gwneud na darlledu unrhyw recordiad sain neu fideo, ffotograffau neu sgrinluniau o gyfarfodydd rhithwir a hybrid, yn unol â rheolau'r Siambr a'r ystafell bwyllgora. Ylai Aelodau ymatal rhag defnyddio eu ffonau symudol o gwbl mewn cyfarfodydd, yn arbennig maent i'w gweld ar Zoom.

## Aelodau yn y Siambr (Cyfarfod Llawn hybrid yn unig)

Mae trefniadau seddi sefydlog ar waith yn y Siambr a grwpiau sy'n gyfrifol am ddyrannu seddi i'w Haelodau. Os bydd Aelod yn ceisio eistedd mewn sedd nad yw wedi'i dyrannu iddo ar gyfer cyfarfod penodol, bydd y Llywydd yn trin y mater fel mater o drefn yn y Siambr o dan Reol Sefydlog 13.

Gall Aelodau yn y Siambr gysylltu â'r Llywydd a'r ddesg flaen i ofyn am siarad yn ystod y cyfarfod drwy ddefnyddio negeseuon gwib, neu dros e-bost Plenary Requests. Dylai Aelodau sy'n cymryd rhan yn rhithiol ddefnyddio e-bost Plenary Requests.